Cyllid & Thollau EM

# Rhestr wirio ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn

Rhowch wybod i'ch cyflogwr am eich amgylchiadau fel na fyddwch yn talu gormod neu rhy ychydig o dreth

**Peidiwch ag anfon y ffurflen hon at Gyllid a Thollau EF (CThEF)**

## Cyfarwyddiadau ar gyfer y cyflogwr

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i gasglu gwybodaeth am eich cyflogai newydd os nad oes ganddo P45. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen hon os oes ganddo fenthyciad myfyriwr (p'un a oes ganddo P45 neu beidio). Defnyddiwch yr wybodaeth i'ch helpu i lenwi'ch Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) cyntaf ar gyfer y cyflogai hwn. Os ydych eisoes wedi cyflwyno'ch FPS cyntaf, parhewch i ddefnyddio'r cod treth yn yr FPS hwnnw nes bod CThEF yn anfon cod treth newydd atoch. Os bydd y cyflogai'n rhoi ei P45 i chi ar ôl y cyflwyniad FPS cyntaf, defnyddiwch y cod treth a ddangosir yn rhannau 2 a 3 o'r P45. Mae'n rhaid i chi gadw'r wybodaeth a gofnodwyd ar y rhestr wirio ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol a'r tair blynedd dreth nesaf. Mae'r ffurflen hon ar gyfer eich defnydd chi yn unig.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer y cyflogai

Llenwch y ffurflen hon os nad oes gennych P45 (dogfen a gewch gan eich cyflogwr pan fyddwch yn rhoi'r gorau i weithio iddo). Dylech hefyd lenwi'r ffurflen hon os oes gennych fenthyciad myfyrwyr (p'un a oes gennych P45 neu beidio). Rhowch y ffurflen sydd wedi'i chwblhau i'ch cyflogwr cyn gynted â phosibl. Mae angen yr wybodaeth hon arno i ddweud wrth CThEF amdanoch ac i'w helpu i ddefnyddio'r cod treth cywir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau'n gywir. Os na wnewch, efallai y byddwch yn talu'r swm anghywir o dreth neu ddidyniadau benthyciad myfyriwr.

---

## Manylion personol y cyflogai

1 **Enw olaf**

2 **Enwau cyntaf**
Peidiwch â nodi blaenlythrennau nac enwau talfyredig megis Geth ar gyfer Gethin neu Beth ar gyfer Elizabeth

3 **Beth yw'ch rhyw?**
Fel y dangosir ar eich tystysgrif geni neu'ch tystysgrif cydnabod rhywedd

Gwryw ☐ Benyw ☐

4 **Dyddiad geni** DD MM BBBB

5 **Cyfeiriad cartref**

Cod post

Gwlad

6 **Rhif Yswiriant Gwladol** (os yw'n hysbys)

7 **Dyddiad dechrau'r gyflogaeth** DD MM BBBB

**Parhad ar y dudalen nesaf**

## Datganiad y cyflogai

Bydd y cwestiynau hyn yn eich helpu i ddewis y datganiad sy'n cyd-fynd â'ch amgylchiadau. Mae'r datganiad a ddewiswch yn helpu'ch cyflogwr i ddefnyddio'r cod treth cywir.

**8 A oes gennych swydd arall?**

Oes ☐ Rhowch 'X' ym mlwch datganiad C isod

Nac Oes ☐ Ewch i gwestiwn 9

**9 A ydych yn cael taliadau o bensiwn y Wladwriaeth, pensiwn gweithle neu bensiwn preifat?**

Ydw ☐ Rhowch 'X' ym mlwch datganiad C

Nac Ydw ☐ Ewch i gwestiwn 10

**10 Ers 6 Ebrill, a ydych wedi cael taliadau o:**

- swydd arall sydd wedi dod i ben
  neu unrhyw rai o'r budd-daliadau trethadwy canlynol
- Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- Budd-dal Analluogrwydd

Ydw ☐ Rhowch 'X' ym mlwch datganiad B isod

Nac ydw ☐ Rhowch 'X' ym mlwch datganiad A isod

I gael rhagor o wybodaeth am godau treth, ewch i www.gov.uk/codau-treth

| Datganiad A | Datganiad B | Datganiad C |
|---|---|---|
| ☐<br>Lwfans personol cyfredol | ☐<br>Lwfans personol cyfredol ar sail Wythnos 1/Mis 1 | ☐<br>Cod Treth BR |
| **Allwedd**<br>Dyma fy swydd gyntaf ers 6 Ebrill, ac ers 6 Ebrill nid wyf wedi cael taliadau gan unrhyw rai o'r canlynol:<br>• Lwfans Ceisio Gwaith<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth<br>• Budd-dal Analluogrwydd | **Allwedd**<br>Ers 6 Ebrill, rwyf wedi cael swydd arall ond nid oes gennyf P45. A/neu ers 6 Ebrill, rwyf wedi cael taliadau gan unrhyw rai o'r canlynol:<br>• Lwfans Ceisio Gwaith<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth<br>• Budd-dal Analluogrwydd | **Allwedd**<br>Mae gen i swydd arall a/neu rwy'n derbyn pensiwn y Wladwriaeth, pensiwn gweithle neu bensiwn preifat. |

**Allwedd**

Mae'r Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn fudd-dal diweithdra y gellir ei hawlio wrth chwilio am waith.

Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn fudd-dal y gellir ei hawlio os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar faint y gallwch weithio.

Mae'r Budd-dal Analluogrwydd yn cynnig help os nad oeddech yn gallu weithio oherwydd salwch neu anabledd cyn 31 Ionawr 2011. Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn bensiwn a delir pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae pensiwn gweithle yn bensiwn a drefnwyd gan eich cyflogwr ac sy'n cael ei dalu i chi. Mae pensiwn preifat yn bensiwn a drefnir gennych chi ac sy'n cael ei dalu i chi.

Sylwer – nid oes angen ystyried unrhyw fudd-daliadau eraill a delir gan y llywodraeth neu CThEF wrth lenwi'r ffurflen hon.



**Parhad ar y dudalen nesaf**

## Benthyciadau Myfyrwyr

11 **A oes gennych fenthyciad myfyriwr?**

Oes ☐ Ewch i gwestiwn 12

Nac oes ☐ Ewch yn syth i'r Datganiad

12 **A yw unrhyw rai o'r datganiadau canlynol yn berthnasol:**

- rydych yn dal i astudio ar gwrs y mae'ch benthyciad myfyriwr yn ymwneud ag ef
- gwnaethoch gwblhau neu adael eich cwrs ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth bresennol, a ddechreuodd ar 6 Ebrill
- rydych eisoes wedi ad-dalu'ch benthyciad yn llawn
- rydych yn talu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr drwy ddebyd uniongyrchol o'ch banc i reoli'ch ad-daliadau diwedd benthyciad

Ydyn ☐ Ewch yn syth i'r Datganiad

Nac ydyn ☐ Ewch i gwestiwn 13

13 **Er mwyn osgoi ad-dalu mwy nag sydd ei angen, ticiwch y benthyciad neu'r benthyciadau myfyriwr cywir sydd gennych – defnyddiwch yr arweiniad ar y dde i'ch helpu.**

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Cynllun 1 ☐

Cynllun 2 ☐

Cynllun 4 ☐

Benthyciad ôl-raddedig (Cymru a Lloegr yn unig) ☐

Cyflogeion – i gael rhagor o wybodaeth am y math o fenthyciad sydd gennych neu i wirio'ch balans, ewch i www.gov.uk/mewngofnodwch-i-reoli-balans-eich-benthyciad-myfyriwr

Cyflogwyr – i gael arweiniad ar fenthyciadau myfyrwyr a pha fath o gynllun neu fenthyciad i'w ddefnyddio os yw'ch cyflogai wedi dewis mwy nag un, ewch iwww.gov.uk/guidance/special-rules-for-student-loans

**Mae Cynllun 1 gennych os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:**

- roeddech yn byw yng Ngogledd Iwerddon pan ddechreuoch eich cwrs
- roeddech yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr a dechreuoch eich cwrs cyn 1 Medi 2012

**Mae Cynllun 2 gennych os:**
roeddech yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr a dechreuoch eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

**Mae Cynllun 4 gennych os:**
roeddech yn byw yn yr Alban a gwnaethoch gais drwy Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban (SAAS) pan ddechreuoch eich cwrs.

**Mae Benthyciad Ôl-raddedig gennych os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:**

- roeddech yn byw yn Lloegr a dechreuoch eich cwrs meistr ôl-raddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2016
- roeddech yn byw yng Nghymru a dechreuoch eich cwrs meistr ôl-raddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2017
- roeddech yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr a dechreuoch eich cwrs doethuriaeth ôl-raddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir.

**Enw llawn** Defnyddiwch briflythrennau

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## Rhowch y ffurflen hon i'ch cyflogwr

Bydd eich cyflogwr yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir o dreth.

Peidiwch ag anfon y ffurflen hon at CThEF.

## Arweiniad i gyflogwyr

I gael gwybod sut i gyfrifo cod treth eich cyflogai newydd, ewch i www.gov.uk/new-employee-tax-code

Defnyddiwch Ddatganiad A, B neu C y mae'ch cyflogai wedi'i ddewis yn yr adran 'datganiad y cyflogai' a defnyddiwch y cod treth isod:

- Datganiad A – defnyddiwch y lwfans personol cyfredol
- Datganiad B – defnyddiwch y lwfans personol cyfredol ar sail 'wythnos 1/mis 1'
- Datganiad C – defnyddiwch y cod treth BR